CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD 27 GORFFENNAF 2006 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. D Carr

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD 30 MEHEFIN 2006

2.1 Cytunwyd â'r rhain ar yr amod y gwnaed mân newidiadau.

3. MATERION YN CODI

3.1 Materion Merlin

3.1.1 Adroddwyd nad oedd Merlin hyd yn hyn wedi anfon peiriannydd i swyddfeydd y Comisiwn i wneud y gwaith ailweirio a oedd yn dal heb ei wneud yn y brif swyddfa. Mynegodd y Comisiwn ei ofid ynghylch yr amser a gymerai i Merlin roi ar waith y tasgau y gofynnwyd amdanynt gan y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn llunio llythyr ffurfiol oddi wrth y Cadeirydd i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y mater hwn.

3.2 Meddalwedd Cyfrifo

3.2.1 Y gred oedd, fel ag a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio, bod Merlin wrthi yn mewnosod y meddalwedd cyfrifo ar weinydd y Comisiwn.

3.3 Datganiadau Rheoli a Memorandwm Ariannol (DRhMA)

3.3.1 Rhoddodd Mr. Lewis wybod na fu unrhyw ddatblygiad ers cyfarfod diwethaf y Comisiwn a'u bod yn dal i ddisgwyl am ffurf ddrafft y DRhMA.

3.4 Penodi Comisiynwyr

3.4.1 Nodwyd bod cael asesiadau cyfredol ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelod yn ofynnol o hyd. Adroddodd yr Ysgrifennydd iddo ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol am ffurflenni asesu gwag. Dywedasai'r Cynulliad wrtho eu bod yn disgwyl i'r cyfweliadau gael eu cynnal ar 9 Hydref 2006.

3.5 Cyfarwyddyd i Arolygon Cymunedol

3.5.1 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu â'r is-adran Noddi i lunio ffurflen yn amlinellu pa wybodaeth yr oedd ar y Comisiwn ei hangen er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfarwyddiadau a gâi eu llunio, yn gywir.

3.6 Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach

3.6.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd wrth y cyfarfod fod cyngor cyfreithiol wedi'i geisio ar yr ateb drafft i Gyngor Cymuned Dyffryn Clydach. Cynhwyswyd y cyngor cyfreithiol yn yr ateb, a gafodd ei anfon wedyn.

4. AILWAMPIO TŶ CARADOG

4.1 Nododd y Comisiwn y sefyllfa o ran y telerau prydlesu diwygiedig i ddeiliaid Tŷ Caradog a'r newid yn y cyfrifoldebau am wneud gwaith adnewyddu ar y rhannau bychain y mae'r deiliad yn eu defnyddio. Cytunwyd y byddai'r gwaith o adnewyddu swyddfeydd y Comisiwn yn cael ei ohirio, gan yr edrychai'n debyg yn awr y byddai'r landlord yn ymgymryd â hyn yn 2007-08. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn holi i weld a fyddai'r gwaith adnewyddu yn cynnwys gosod hysbysfyrddau. Os nad oedd, byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn prynu hysbysfyrddau ar gyfer yr ystafell gynadledda.

5. ADRODDIAD CYLLID – CHWARTER CYNTAF 2005-06

5.1 Derbyniodd y Comisiwn yr adroddiad am chwarter cyntaf 2005-06 a'r tanwariant a amcangyfrifwyd ar y cyllid o ganlyniad i'r newid yn y gofynion o ran yr adnewyddu. Byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro ac edrychid ar unrhyw gyfle i drosglwyddo cyllid yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddiwedd y trydydd chwarter pan fyddai darlun cliriach o'r gofynion o ran gwariant.

6. CYFARFOD BLYNYDDOL AGORED

6.1 Nodwyd i Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys, Mark Kerr, a Phrif Weithredwr Un Llais i Gymru, Simon White, ill dau gadarnhau y byddent ar gael i fynychu'r cyfarfod agored blynyddol ac i wneud cyflwyniadau. Roedd Swyddogion Ymchwil Polisi Llywodraeth Leol Y Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi cadarnhau y gallent wneud cyflwyniad. Anfonasid y gwahoddiadau a hyd yn hyn roedd tua 30 wedi derbyn.

7. CYFARFODYDD BLYNYDDOL CLILC AC UN LLAIS I GYMRU

7.1 Adroddwyd bod manylion cyfarfod blynyddol Un Llais i Gymru wedi cyrraedd erbyn hyn; roedd i'w gynnal yn Llandrindod ddydd Sadwrn 14 Hydref 2006. **Cytunwyd** y byddai Mr Roberts yn mynychu ar ran y Comisiwn.

7.2 Nid oedd manylion cyfarfod blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'u rhyddhau eto. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i gysylltu â'r Gymdeithas ac yn cael y wybodaeth cyn gynted ag y byddai ar gael.

8. GWERTHUSO AROLYGON ETHOLIADOL YN LLOEGR

.1 Esboniodd yr Ysgrifennydd fod y ddogfen hon yn cynnwys canlyniad ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol ar y ddeddfwriaeth a'r prosesau sy'n rhan o gynnal adolygiadau etholiadol yn Lloegr. Nodwyd yr adroddiad gan y Comisiwn.

9. YMGYNGHORIAD: TUAG AT E-GYMRU

9.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd i'r ymgynghoriad hwn gael ei gychwyn gan Y Cynulliad Cenedlaethol i geisio barn ynghylch materion allweddol y mae a wnelont â'r defnydd ar

TGCh yng Nghymru. Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 31 Hydref 2006. **Cytunwyd** y byddai'r Aelodau yn ystyried y mater hwn ac yn penderfynu yng nghyfarfod mis Medi ar unrhyw ymateb yr hoffent ei roi.

10. UNRHYW FATER ARALL

10.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau i lythyr gael ei dderbyn gan Gadeirydd Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn diolch i'r Comisiwn am gyflwyno tystiolaeth yn yr ymchwiliad yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Dywedodd yr Ysgrifennydd y gallai fod ar yr Aelodau eisiau ystyried yn awr y posibiliadau ar gyfer ffurf y comisiynau llywodraeth leol a seneddol i Gymru. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn trafod y mater hwn â'r is-adran noddi ac y câi papur ei gynnwys yn agenda cyfarfod mis Medi.

10.2 Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wedi cynnal cyfarfod â Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod materion ynghylch cymunedau yng Nghymru a'r gwaith arolygu arfaethedig. Roeddent wedi cyflwyno manylion y seddau cyngor cymuned na chafodd eu hymladd o etholiadau 2004 i'r Gymdeithas a hefyd wedi addo rhoi iddo'r wybodaeth am y sefyllfa gyfredol o ran sut oedd awdurdodau lleol yn dod yn eu Blaenau â mynd i'r afael ag arolygon cymunedol posibl yn eu hardaloedd. Buasai'r ymateb yn gadarnhaol a chytunodd y Prif Weithredwr i dynnu sylw at bwysigrwydd arolygon cymunedol yn ei lythyr cyffredinol a oedd ar fin ei ysgrifennu at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol.

10.3 Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i ohebiaeth gael ei derbyn oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn holi ynghylch llinell y ffin rhwng Caerffili a Blaenau Gwent yn ardal Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach. Pan arolygodd y Comisiwn y ffin yn yr ardal hon yn wreiddiol y bwriad oedd i'r ffin newydd redeg ar hyd canol y ffordd i'r de i'r ystâd ddiwydiannol. O ymchwilio mwy, fodd bynnag, gwelwyd bod y ffin fel y'i dangosir ar y map a gynhwyswyd yng Ngorchymyn Y Cynulliad Cenedlaethol i ddod â'r cynigion i rym, yn dangos y ffin yn dilyn ochr ddeheuol y ffordd, gyda'r ford ei hun o'r herwydd yn disgyn oddi mewn i Flaenau Gwent. Ystyriai'r Comisiwn fod yn rhaid cymryd mai Gorchymyn Y Cynulliad Cenedlaethol oedd yr un swyddogol ac felly rhaid oedd i linell y ffin ddilyn yr hyn a ddangoswyd ar fap y Gorchymyn. Cytunwyd yr anfonid ateb i'r ymholiad i'r perwyl hwnnw ac y dylid hefyd ei gwneud yn glir os y byddai i hyn greu trafferthion naill ai i Gyngor Blaenau Gwent neu i Gyngor Caerffili, y byddai croeso iddynt gysylltu â'r Comisiwn i ofyn am i'r sefyllfa gael ei harolygu.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11.1 Gosodwyd dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn: Dydd Mercher 27 Medi 2006, Dydd Mercher 11 Hydref 2006 a Dydd Mercher 8 Tachwedd 2006.